cronfa dreftadaeth y loteri
heritage lottery fund

***Darganfyddwch botensial anferthol treftadaeth y wlad hon!***

# Angen aelod/au Pwyllgor i ymuno â’n Pwyllgor Cymru!

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) yn dosbarthu cyfran treftadaeth o arian a godwyd gan y Loteri Genedlaethol ac ers 1994 mae wedi buddsoddi £240 miliwn i fwy na 2,000 o brosiectau treftadaeth yng Nghymru gyda dyfarniadau yn amrywio o gannoedd i sawl miliwn o bunnoedd.

**Helpu i lunio dyfodol treftadaeth y wlad**
Rydym yn awr yn ceisio penodi o leiaf un aelod newydd i’r pwyllgor.

Mae'r pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ar grantiau rhwng £100,000 a £2 filiwn. Mae'n darparu safbwynt hanfodol i'r Bwrdd ar grantiau mwy a blaenoriaethau ariannu i Gymru ac yn cynnal trosolwg o'r penderfyniadau grantiau bach. Mae aelodau yn cyfarfod â phobl sy'n ymwneud â phrosiectau treftadaeth, yn cynrychioli CDL mewn agoriadau a digwyddiadau ac yn gweithredu fel eiriolwyr dros gwerth treftadaeth i fywyd modern.

Rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan bobl o amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau, sy'n gallu dangos perthynas gyda threftadaeth amrywiol a chyffrous Cymru. Rydym yn chwilio am ymgeiswyr gydag arbenigedd mewn prosiectau treftadaeth adeiledig, amgueddfeydd/ llyfrgelloedd/ archifau, a phobl ifanc neu gymunedol yn benodol.  Croesawn geisiadau gan bobl o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau ac unigolion o bob grŵp oedran.

Cysylltwch â Jennifer Stewart, Pennaeth CDL Cymru, i ganfod sut yr ydym yn gweithredu yng Nghymru ac am rôl aelod o'r pwyllgor, trwy yrru e-bost at JenniferS@hlf.org.uk  neu ffoniwch 029 2023 4144. I gofrestru diddordeb gyrrwch e-bost at decisionmakers@hlf.org.uk neu ewch i'n gwefan ar welsh.hlf.org.uk am fwy o wybodaeth.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydi **Dydd Llun 22 Hydref 2012.**

Awarding funds from
The National Lottery®